# Arian Trwy Ein Hoes

**Mae ein anghenion ariannol yn newid trwy gydol ein bywyd. Darllenwch yr astudiaethau achos canlynol a thrafodwch beth fydd pob un ohonynt ei angen a'i eisiau.**

Mae **Alan** yn14 oed ac yn byw gartref gyda'i rieni. Mae'n cael lwfans wythnosol am lanhau ei ystafell ac am olchi car ei rieni. Mae'n hoffi mynd allan gyda'i ffrindiau, ond mae eisiau cynilio arian ar gyfer prynu MP3 a seinyddion (speakers) ar gyfer ei ystafell.

Mae **Fran** yn 16 oed ac yn astudio'n galed ar gyfer ei arholiadau gan ei bod am fynd i'r brifysgol. Mae ganddi gariad hefyd, a phan nad yw'n astudio, mae am fod gydag ef. Oherwydd hyn, does ganddi ddim amser i gael gwaith rhan amser.

Mae **John** yn 17 oed, a newydd adael yr ysgol, ond mae'n methu dod o hyd i waith— er iddo fod yn chwilio ym mhob man. Yn ffodus, mae'n dal i fyw gartref, ond mae'n awyddus iawn i gael dysgu gyrru, oherwydd mae'n credu y byddai hynny yn help iddo gael gwaith.

Myfyriwr 19 oed yw **Sian**. Mae newydd ddechrau rhentu fflat gyda dwy ffrind. Mae ganddi fenthyciad myfyriwr, ond nid yw hyn yn rhoi llawer o arian iddi. Mae'n chwilio am waith rhan amser, ond nid yw wedi llwyddo hyd yma. Mae gan y ddwy arall sydd yn y fflat, waith, ac er nad yw am golli allan ar yr hwyl , mae'n gostus mynd allan gyda nhw yn ystod y min nos.

Mam sengl 25 oed yw **Gina**. Mae ganddi fabi a phlentyn arall dwyflwydd oed. Mae'r cyngor yn talu am y tŷ lle mae'n byw ac mae'n derbyn budddaliadau. Nid yw'n gallu gweithio oherwydd bod gofalu am y ddau blentyn bach yn mynd â'i hamser i gyd.

Mae **Michelle** yn ferch 32 oed gyda swydd dda. Mae wedi prynu fflat smart iddi ei hun, mae'n gyrru sbortscar ac yn cael llawer o wyliau gyda ffrindiau. Mae'n gweithio'n hwyr gan amlaf, ond mae'n hoffi mynd i bartïon ar y penwythnos. Does ganddi ddim plant.

Mae **Ali** yn 43 oed, ac mae ei wraig ac yntau yn gweithio llawn amser. Maen nhw'n berchen tŷ , ac mae ganddyn nhw dri o blant— sydd yn yr ysgol. Cyflogir rhywun i nôl y plant o'r ysgol ganddynt, ac i lanhau'r tŷ ddau fore'r wythnos.

Gŵr gweddw 67 oed yw Jac. Mae wedi ymddeol ddwy flynedd yn ôl. Mae'n derbyn y Pensiwn Gwladol. Mae'r arian sydd ganddo fel cynilion yn gyfyngedig. Symudodd yn ddiweddar i fflat ar rent er mwyn bod yn nes at ei fab a'i ferch yng nghyfraith a'u plant.



Darparwyd gan Nationwide – ar gael ar www.NationwideEducation.co.uk

# Arian Trwy Ein Hoes (parhad)

## TRAFODAETH

Gan drafod pob un o'r astudiaethau achos hyn yn eu tro, trafodwch sefyllfa ariannol debygol y person dan sylw. Fe allech chi feddwl am y canlynol:

- Faint allai'r person o bosib fod yn ei ennill a'i wario?
- Pa fath o broblemau ariannol allai fod ganddo/ganddi?
- Beth yw ei anghenion a'i eisiau posib?
- A allai ef neu hi gynilo unrhyw arian i brynu'r rhain?

## Gweithgared

Meddyliwch am y pethau fydd eu hangen arnoch chi dros y 10 mlynedd nesaf. Fe allai'r rhain gynnwys:

- **Costau tymor byr:** eitemau heb fod yn gostus iawn, ac y gellir eu prynu ar unwaith heb angen dim, neu fawr ddim cynilo (e.e. DVD, CD, bwyd)
- **Costau tymor canol:** eitemau sydd angen peth cynilo o flaen llaw neu'n sy'n golygu talu dros gyfnod o amser (e.e. teledu, chwaraewr DVD, cytundeb ffôn symudol)
- **Costau tymor hir:** eitemau costus lle bydd angen cynllunio a chynilo caled dros y tymor hir. Gall hyn fod dros nifer o fisoedd neu flynyddoedd— e.e. pensiwn, costau prifysgol, gwyliau, buddsoddiadau (investments) morgais.

Dewiswch bum peth ac ymchwiliwch i'w costau. Gallech fynd ar-lein, edrych mewn siopau neu ddefnyddio catalogau. Ydi cost eitem arbennig bob amser yr un fath, neu a yw'n amrywio? Sut allech chi ddod o hyd i'r pris gorau?